- Ceir ymrwymiad eglur gan bob sefydliad sy'n rhan o'r bartneriaeth, a ategir gan gytundeb cyfreithiol, sy'n dangos bod y model gwasanaethau newydd yn newid trawsffurfiol ar gyfer yr hirdymor.
- Mae'r Cyngor wedi gwneud penodiadau parhaol sy'n dangos ei ymrwymiad i'r tymor hir.
- Mae'r bartneriaeth yn dilyn dull graddol. Mae Cam 1 y prosiect wedi gosod y sylfaen ar gyfer datblygiadau trawsffurfiol pellach Cam 2. Roedd Cam 1 wedi gosod y llwyfan ar gyfer y cam nesaf trwy ddarparu camau cyflym ymlaen a phrofi modelau gwasanaeth pwysig.

16 Canfuom y materion canlynol i'r Cyngor eu hystyried wrth ddatblygu ei gynlluniau yn y dyfodol ar gyfer y modelau gwasanaethau cymunedol newydd:

- Nid oedd y bartneriaeth yn gallu dweud pa mor hir oedd 'hirdymor' yn achos SW@H gan bod hynny'n dibynnu ar barhad y cyllid o'r Gronfa Gofal Integredig. Nid yw sicrwydd y ffrwd cyllid hon wedi'i warantu.
- Pe bai cyllid y Gronfa Gofal Integredig yn dod i ben yn y dyfodol, byddai angen cryn dipyn o 'ddatbwytho' i wahanu'r ffrydiau gwaith newydd yn unol â dyraniadau cyllidebol gwasanaethau ac adrannau. Mae'r bartneriaeth yn cydnabod yr angen i adolygu gwahanol drefniadau cyllido (e.e. cyllidebau cyfunol) i leihau'r potensial ar gyfer anghytundebau ynghylch cyllid a dyrannu costau yn y dyfodol.
- Mae'r ffordd newydd o weithio'n gosod pwysau sylweddol ar ofal cartref yn y gymuned. Er bod gan y Cyngor hyder yn ei wasanaethau cymunedol, mae'r bartneriaeth yn ymwybodol o'r angen am fonitro parhaus i sicrhau y cynhelir capasiti priodol ar gyfer gofal cartref.

## Mae'r modelau gwasanaethau cymunedol newydd yn canolbwyntio ar atal problemau rhag digwydd a/neu waethygu yn y dyfodol

### Yr hyn y chwilion ni amdano

17 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- gwaith i fonitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

18 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'atal' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

## Yr hyn a ganfuom

19 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Atal yw'r agwedd sylfaenol ar y Gwasanaeth SW@H gan ei fod yn amcanu at atal argyfyngau iechyd yn y dyfodol rhag digwydd ac osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty ac arosiadau maith yn yr ysbyty.
- Nod Cam 2 y prosiect yw mynd ag atal ymhellach byth trwy ystyried atal pobl rhag cyrraedd yr ysbyty yn y lle cyntaf a thargedu pobl 'sy'n wynebu risg' cyn bod cyfnod yn digwydd iddynt hwy.
- Mae gan y Cyngor ddata meintiol i ddangos bod nifer y derbyniadau a hyd cyfartalog yr arosiadau wedi gostwng. Mae ganddo hefyd ddata ansoddol ar ffurf straeon cleifion sy'n amlygu'r manteision y mae'r gwasanaeth yn eu dwyn i bobl trwy eu galluogi i ddychwelyd i'w cartrefi cyn gynted â phosibl.

20 Canfuom y materion canlynol i'r Cyngor eu hystyried wrth ddatblygu ei gynlluniau ar gyfer y modelau gwasanaethau cymunedol newydd yn y dyfodol:

- Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r pwysau y mae'r Gwasanaeth SW@H yn eu gosod ar ofal cartref yn y gymuned, o ran niferoedd cynyddol ac anghenion mwy cymhleth. Rhaid i'r Cyngor fonitro capasiti gofal cartref wrth i bwysau yn y dyfodol ddwysáu.
- Mae'r bartneriaeth wedi adnabod yr angen i fwrw golwg ar agwedd wahanol ar atal (e.e. meddygon teulu, nyrsys, parafeddygon a fferyllwyr) – atal pobl rhag mynd i'r ysbyty yn y lle cyntaf. Dywedodd y Cyngor wrthym mai dyma fyddai ffocws Cam 2.
- Dylai'r Cyngor gymryd y cyfle i feddwl yn fwy eang dros y tymor hir, i adnabod sut y gall gwasanaethau a phartneriaid eraill (o fewn a'r tu allan i'r Cyngor) gael eu cynnwys ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi.
- Datblygu'r Prosiect 'Gofalwyr Sengl' ymhellach.
- Mynd ati ymhellach i hybu rôl 'Dewis' i sicrhau bod gwasanaethau sydd ar gael trwy'r trydydd sector yn cael eu hyrwyddo'n ddigonol i'r rhai a fyddai'n cael budd ohonynt.
- Mae'r Cyngor yn ymchwilio i feysydd buddsoddi pellach ar gyfer SW@H:
    - Rhagor o yrwyr cerbydau i helpu i ddanfon offer i unigolion yn y gymuned;
    - gweithgarwch hyfforddi, cyfeirio a chodi ymwybyddiaeth ychwanegol ar gyfer staff rheng flaen;

[3] Gweler Atodiad 1

## Yr hyn a ganfuom

31 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Mae'r Prosiect SW@H yn gwneud llais yr unigolyn yn ganolog i'r asesiad ac, yn hollbwysig, yn cynnwys llais y gofalwr yn y sgwrs am 'yr hyn sy'n bwysig'.
- Mae'r bartneriaeth wedi cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd yn ogystal â'r gymuned ehangach yn y broses o ddatblygu'r gwasanaeth trwy:
  - ymgysylltu uniongyrchol â'r Fforymau Pobl Hŷn a Grwpiau Ymgynghorol Pobl Hŷn ar draws Cwm Taf;
  - ymgysylltu â'r Trydydd Sector trwy'r Rhwydwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac
  - ymgysylltu wedi'i dargedu â Phaneli Dinasyddion, Cydgysylltwyr Cymunedol y Gronfa Gofal a phartneriaid eraill.
- Bydd y Prosiect SW@H yn parhau i gynnal sgyrsiau am 'yr hyn sy'n bwysig' gyda defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a theuluoedd i'w cynnwys mewn penderfyniadau ynglŷn â'u gofal.
- Mae'r Cyngor wedi defnyddio arolygon electronig i gasglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau ar bob rhan benodol o'r broses. Cafodd y data o'r arolygon hyn ei goladu a'i ddefnyddio i ddangos tystiolaeth o berfformiad gwasanaethau ac i oleuo datblygiad Cam 2.

32 Canfuom y materion canlynol i'r Cyngor eu hystyried wrth ddatblygu ei gynlluniau yn y dyfodol ar gyfer y modelau gwasanaethau cymunedol newydd:

- Mae'r Cyngor wedi nodi y byddai wedi cael budd o adnodd canolog, pwrpasol i gasglu, dadansoddi ac adrodd ar adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a sefydliadau partner. Nid yw'r Cyngor yn berchen ar yr holl ddata y mae'i angen arno ac mae'n dibynnu ar sefydliadau partner i ddarparu'r wybodaeth y mae ei angen arno.

